

## Canllaw arfer da

Bod yn agored ac yn onest  
fel gweithiwr proffesiynol  
addysg

Rhagfyr 2020

## Cyflwyniad

Mae 'gonestrwydd ac unplygrwydd' yn debygol o fod ymhlith yr uchaf ar y rhestr o nodweddion disgwylidig gweithiwr proffesiynol petai rhywun yn gofyn i aelod o'r cyhoedd. Mae'n rhaid i onestrwydd fod wrth graidd bod yn broffesiynol - mae'n egwyddor sylfaenol oherwydd bod pob un weithred o onestrwydd ac agoredrwydd yn creu argraff o rywun mae modd ymddiried ynddo, ei barchu ac sy'n gosod esiampI gadarnhaol.

Pan ddaethoch yn ymarferydd, ymrwymoch bryd hynny i ymddwyn gydag agoredrwydd a gonestrwydd yn eich bywyd proffesiynol a, lle y bo'n briodol, yn eich bywyd personol. Wedi dweud hynny, nid yw bob amser yn hawdd cael hyn yn iawn bob tro, ac weithiau mae'n rhaid derbyn eich bod wedi gwneud camgymeriad a bod angen cymryd cyfrifoldeb. Ond dylai gweithiwr proffesiynol gael ei sbarduno gan ddymuniad i 'wneud y peth iawn', hyd yn oed mewn amgylchiadau anodd, a dysgu yn sgil unrhyw gamgymeriadau.

Nod y canllaw hwn yw eich helpu i godi eich ymwybyddiaeth a'ch dealltwriaeth eich hun o feysydd allweddol yn eich bywyd proffesiynol a phersonol lle disgwylir agoredrwydd a gonestrwydd. Ni all fynd i'r afael â'r holl amgylchiadau posibl ac ni fwriedir iddo fod yn rhestr derfynol o ymddygiadau, ond yn hytrach darperir ef i amlygu pwysigrwydd bod yn agored ac yn onest fel gweithiwr proffesiynol cofrestredig.

## Y Cod

Mae holl ymarferwyr cofrestredig Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yn ddarostyngedig i'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol sy'n nodi egwyddorion ymddygiad ac ymarfer da i gofrestreion. Dylid darllen yr arweiniad hwn ar y cyd â'r Cod, y gellir ei lawrlwytho oddi ar [www.cga.cymru/codcga](http://www.cga.cymru/codcga).

## Unplygrwydd Proffesiynol

Mae'r Cod yn nodi bod cofrestreion:

- 2.1** yn atebol am eu hymddygiad a'u cymhwysedd proffesiynol;
- 2.2** yn ymddwyn yn onest, a chydag unplygrwydd, yn arbennig mewn perthynas â'r canlynol:
  - cyllid ac arian yn y gweithle;
  - rhinweddau, profiad a chymwysterau personol;
  - geirdaon, datganiadau a wneir ac wrth lofnodi dogfennau;
  - asesu a thasgau'n gysylltiedig ag arholiadau;
  - defnydd o eiddo a chyfleusterau a ddarperir gan eu cyflogwr;
  - cyfathrebu gyda CGA, gan ei hysbysu am unrhyw euogfarn droseddol neu rybuddiad cofnodadwy, neu gyfyngiad a osodir ar eu hymarfer gan unrhyw gorff arall;
  - eu cyflogwr, ac adrodd unrhyw fater sy'n ofynnol gan delerau ac amodau eu cyflogaeth.
- 2.3** yn ymdrin â gwybodaeth a data mewn modd priodol, gan gymhwyso'r protocolau angenrheidiol yn ymwneud â chyfrinachedd, sensitifrwydd a datgelu;
- 2.4** yn glynu wrth safonau ymddygiad cyfreithlon, mewn modd sy'n cydfynd â bod yn aelod o'r proffesiwn addysg.

Mae unplygrwydd proffesiynol yn **egwyddor allweddol** yn y Cod. Dylech gadw'r Cod fel pwynt cyfeirio pwysig - dylech feddwl am y pum egwyddor allweddol a'r disgwyliadau mae'r rhain yn eu gosod arnoch. Bydd y Cod yn eich helpu i wneud y penderfyniadau cywir pan fyddwch yn wynebu'r heriau a drafodir yn y Canllaw hwn.

Bydd Pwyllgorau Priodoldeb i Ymarfer a benodir i benderfynu a yw cofrestrai wedi torri'r Cod yn ystyried yn fwy cadarnhaol y bobl hynny sy'n

cyfaddef i'w camgymeriadau, sy'n dangos mewnwelediad ac sy'n meddu ar gymhelliant i unioni pethau at y dyfodol.

## Atebolrwydd

Mae nifer o feysydd gwahanol mewn bywyd lle disgwylir i chi ddangos gonestrwydd ac unplygrwydd fel gweithiwr proffesiynol.

### **Yn foesegol**

Mae'r cyhoedd yn disgwyl i chi feddu ar god moesegol sy'n arwain eich ymddygiad, i ddeall yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir mewn perthynas â'ch ymddygiad.

### **Yn gytundebol**

Mae eich contract cyflogaeth yn nodi disgwyliadau eich cyflogwr ohonoch, gan gynnwys eich cyfrifoldeb i lynu wrth bolisïau a gweithdrefnau'r gweithle.

### **Yn broffesiynol**

Mae eich cydweithwyr, dysgwyr, rhieni, gofalwyr a'r cyhoedd yn disgwyl i chi ymddwyn yn broffesiynol ac i fod yn atebol am eich ymddygiad.

### **Yn gyfreithiol:**

Mae disgwyl nid yn unig i chi lynu wrth y gyfraith, ond hefyd cydymffurfio â deddfwriaeth ac arweiniad cenedlaethol a allai fod yn berthnasol i'ch gwaith. Er enghraifft: Gweithdrefnau Diogelu Cymru, GDPR, Iechyd a Diogelwch.

Mae camgymeriadau'n rhan arferol o fywyd bob dydd ac yn bwysig er mwyn tyfu'n bersonol ac yn broffesiynol. Nid yw hi bob amser yn hawdd cyfaddef iddynt, yn enwedig os ydych yn weithiwr proffesiynol ac mae disgwyliadau proffesiynol a'r cyhoedd ohonoch eisoes yn uchel. Gallai camgymeriad deimlo fel methiant, sy'n anodd i unrhyw un ei gyfaddef i unrhyw un, ac yn arbennig i gyflogwr neu rywun rydych yn atebol iddynt.

Mae camgymeriadau bwriadol, ar y llaw arall, yn aml yn mynnu meddwl a chynllunio ymlaen llaw, a gallant ddangos ymddygiad bwriadus a thwyllodrus.

Beth bynnag fo'r amgylchiadau, gall cuddio camgymeriad sy'n adlewyrchu arnoch chi'n broffesiynol, beri llawer mwy o broblemau i chi na'r camgymeriad ei hun, yn anad dim oherwydd y gellid colli ymddiriedaeth

ynoch a pharch tuag atoch petai rhywun arall yn dod i wybod. Mae'n well bod yn onest, a chyfaddef i gamgymeriad yn gyflym.

Dyma ein cyngor:

- Cyn gwneud dim - pwyllwch ac asesu'r hyn sydd wedi digwydd
- Derbyniwch gyfrifoldeb
- Meddyliwch sut gallech unioni'r broblem, a rhoi camau cywiros yn eu lle os yw'n briodol gwneud hynny
- Esboniwch yr hyn sydd wedi digwydd i'r person y bydd angen iddo wybod, beth rydych wedi'i wneud i'w unioni, neu sut byddwch yn gwneud hynny
- Os bydd angen i chi ymddiheuro, gwnewch hynny cyn gynted â phosibl
- Ceisiwch ddysgu o'r hyn sydd wedi digwydd, a newid rhywbeth at y dyfodol

Gallai ofni y gallai bod yn onest roi eich swydd yn y fantol neu wneud sefyllfa anodd yn y gwaith yn waeth eich atal rhag bod yn agored ac yn onest. Efallai eich bod wedi ei gadael yn rhy hir cyn cyfaddef i gamgymeriad, neu nid oeddech chi'n gwybod sut i ymdrin â'r mater ar y pryd. Efallai eich bod wedi panicio a cheisio'i guddio ac erbyn hyn mae'n anoddach fyth syrthio ar eich bai a chymryd cyfrifoldeb.

Os oes rhywbeth wedi digwydd a allai, petai rhywun yn dod i wybod amdano, gyfaddawdu'r ymddiriedaeth a roddir ynoch chi fel gweithiwr proffesiynol, ni ddylid tanbriso gwerth **dweud wrth rywun** ar y cyfle cynharaf. **Gofynnwch am help** er mwyn gwneud synnwyr o'r hyn sydd wedi digwydd gan **rywun rydych yn ymddiried ynddo**, a dod o hyd i ffordd o fod yn onest gyda'r person mae angen iddo wybod. Gallai eich undeb hefyd fod mewn sefyllfa i gynnig y cymorth sydd ei angen arnoch i wneud hynny.

Cofiwch fel gweithiwr proffesiynol y bydd eich dysgwyr a'r rhai hynny sy'n gysylltiedig â'u haddysg a'u hyfforddiant yn edrych tuag atoch chi am yr esiampol o sut dylid ymddwyn. Mae'r Cod yn disgwyl i chi fod yn atebol am eich ymddygiad, ac nid oes dim sydd bwysicach na'ch gonestrwydd.

## Achosion o dorri'r Cod

Mae'r enghreifftiau isod yn dangos achosion lle mae cofrestreion wedi methu'n sylweddol â bod yn agored ac yn onest pan oedd angen iddynt fod, ac roeddent yn ddarostyngedig i weithrediadau disgyblu o ganlyniad.

Ym mhob achos, mae'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol yn amlwg wedi'i dorri a derbyniodd y cofrestreion ystod o sancsiynau disgyblu gan gynnwys, mewn rhai achosion, cael eu gwahardd rhag ymarfer yn y gweithlu addysg yn y dyfodol.

Canfuwyd bod pob cofrestrai'n anonest ac yn dangos diffyg unplygrwydd. Methant â chyfaddef i'w camgymeriadau, hyd yn oed i CGA.

Bu i gofrestrai:

- wario £500,000 o gronfa'r ysgol ar hapchwarae ar-lein tra'n bennaeth, gan arwain at euogfarn droseddol a chyfnod o garchar.
- gwadu cael perthynas rywiol gyda disgybl o dan 16 oed pan oedd mewn swydd o ymddiriedaeth fel athro ac arweinydd ieuencid mewn sefydliad gwirfoddol.
- esgus bod yn blentyn ar-lein, a gwneud honiadau difrifol o gamdriniaeth rywiol yn erbyn eu rheolwr llinell i elusen plant.
- dweud celwydd am feddu ar gymwysterau a graddau a oedd yn rhagofyniad am swydd wrth ymgeisio am swydd pennaeth adran.
- cywiro ac ychwanegu at waith cwrs TGAU Mathemateg er mwyn codi marciau disgyblion ac adlewyrchu'r well ar yr athro.
- ffugio ffurflenni adolygu dysgwyr a'u llofnodion yn ogystal â ffugio taflenni amser a gyflwynwyd i'w cyflogwr.
- darparu Tystysgrif a ffugwyd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) i asiantaeth er mwyn awgrymu nad oedd ganddynt gofnod troseddol, pan nad dyna oedd y gwir.
- yn anonest am y rhesymau dros eu habsenoldebau o'r gwaith, ac wedi ffugio llythyrau ysbyty Ymddiriedolaeth y GIG er mwyn awgrymu eu bod yn derbyn triniaeth am salwch ffugiedig.

## Sut y gallwn eich cefnogi ymhellach

Mae CGA yn cynnig cyflwyniadau sy'n canolbwyntio ar briodoldeb i ymarfer, a'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol. Os hoffech chi neu eich cyflogwr drefnu un o'r rhain yn y gweithle, cysylltwch â [gwybodaeth@cga.cymru](mailto:gwybodaeth@cga.cymru).

Gellir gweld Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol CGA ar gyfer Cofrestreion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, a gwybodaeth am waith priodoldeb i ymarfer CGA ar ei wefan.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at y Tîm Priodoldeb i Ymarfer yn [priodoldebiymarfer@cga.cymru](mailto:priodoldebiymarfer@cga.cymru).

## **Cyfeiriad**

Cyngor y Gweithlu Addysg  
9<sup>fed</sup> Llawr Tŷ Eastgate  
35-43 Heol Casnewydd  
Caerdydd  
CF24 0AB

029 2046 0099



[www.cga.cymru](http://www.cga.cymru)



[gwybodaeth@cga.cymru](mailto:gwybodaeth@cga.cymru)



[twitter.com/ewc\\_cga](https://twitter.com/ewc_cga)

Os oes angen arnoch unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn fformat arall, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.